Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.4.8 Ffynonellau ariannu ar gyfer prosiectau chwaraeon

Cardiff Third Sector Council
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Golwg cyffredinol

Mae'r daflen wybodaeth yma yn darparu manylion ffynonellau arian ar gyfer mudiadau gwirfoddol sydd ynghlwm wrth brosiectau chwaraeon. Bwriedir y cyfan fel canllaw cyffredinol; bydd y cysylltiadau yn gallu rhoi mwy o wybodaeth fanwl i chi. Gall eich cyngor gwirfoddol lleol (CVC) eich helpu i adnabod ffynonellau arian ar gyfer eich anghenion.

Chwaraeon Cymru

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu nifer o gynlluniau ariannu sy'n ceisio cynyddu cymryd rhan a gwella perfformiadau chwaraeon Cymru. Mae gwybodaeth bellach ar y cynlluniau grant a meini prawf cymhwyster yn rhan o'r canllawiau perthnasol ar gael oddi wrth Chwaraeon Cymru.

Sportsmatch Cymru

Dyma gynllun sy'n darparu cyswllt hanfodol rhwng y sector masnachol a datblygiad chwaraeon lefel sylfaenol, yn cynnig prosiectau sy'n cynyddu cyfranogi gan glybiau chwaraeon a chefnogaeth cyrff llywodraethol, drwy fuddsoddiad '£ am £' yn y sector preifat.

Development

Mae Chwaraeon Cymru yn ariannu prosiectau sy'n datblygu gweithgaredd chwaraeon a chorfforol yn y gymuned. Mae grantiau ar gael o £1,501 i £25,000 ar gyfer prosiectau.

Y Gist Gymunedol

Dyma gynllun cymorth grant a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol. Fe'i gynlluniwyd i annog mwy o bobl i fod yn fwy bywiog yn fwy aml. Uchafswm y grant yw £1,500 mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

Coach Cymru

Mae hwn yn gynllun ar gyfer hyfforddi, cefnogaeth a chyflogaeth i hyfforddwyr.

Élite Cymru

Mae hwn yn darparu cefnogaeth i alluogi athletwyr mwyaf addawol Cymru i gyrraedd eu potensial. Gall hyn gynnwys cefnogaeth gwyddoniaeth chwaraeon, cefnogaeth feddygol, cyngor gyrfaoedd ac addysgol, a defnyddio cyfleusterau hyfforddi. Ystyrir ceisiadau ariannu yn unig ar gyfer y chwaraeon a gydnabyddir gan Chwaraeon Cymru.

Cyswllt: Chwaraeon Cymru,
Gerddi Soffia, Caerdydd CF11 9SW
Ffôn: 0845 045 0904
Ffacs: 0845 846 0014
info@sportwales.org.uk
www.sportwales.org.uk

Cefnogaeth Datblygu Teithiau Tramor

Dyma gynllun i helpu ariannu teithiau tramor sy'n gwella datblygiad chwaraeon. Cyfyngir y grantiau i 50% costau arfaethedig teithio, cyfarpar diogelwch a deunyddiau hanfodol eraill. Uchafswm y grant yw £1,000.

Paul Dancey
Welsh Sports Association, Sport Wales National Centre, Sophia Gardens
Cardiff, CF11 9SW
Tel: 0845 846 0020
Fax: 0845 846 0014
paul.dancey@welshsports.org.uk

Dickie Bird Foundation

Dyma gefnogaeth i unigolion a mudiadau drwy Brydain Fawr gyda'r bwriad o helpu pobl ifainc dan anfantais (dan 18 oed) i gymryd rhan mewn chwaraeon, hyd eithaf eu gallu, yn eu chwaraeon dewisedig, heb ystyried eu hamgylchiadau cymdeithasol, diwylliannol neu ethnigrwydd. Drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon, gobeithir gwella iechyd, addysg gorfforol, a chyfleoedd o fewn a thua allan i chwaraeon. Uchafswm y grant - £5,000.

Cyswllt: The Dickie Bird Foundation,
60 Swincar Avenue, Yeadon, Leeds,
West Yorkshire LS19 7PF
Ffôn: 0775 9767489
info@thedickiebirdfoundation.org
www.thedickiebirdfoundation.org

Lord's Taverners Foundation

Mae arian ar gael i annog pobl ifainc anabl i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon gyda darpariaeth cadeiriau olwyn chwaraeon, bysiau mini a addaswyd, a chefnogaeth y gêm criced ar lefel sylfaenol.

Cyswllt: Lord's Taverners Foundation,
10 Buckingham Place, Llundain
SW1E 6HX
Ffôn: 020 7821 2828
Ffacs: 020 7821 2829
hq@lordstaverners.org www.lordstaverners.org

Peter Harrison Foundation

Mae rhaglen Cyfleoedd drwy Chwaraeon y Sefydliad yn derbyn ceisiadau gan brosiectau sy'n darparu cyfleoedd i bobl anabl neu dan anfantais i gyflawni'u potensial a datblygu sgiliau bywyd personol. Mae'r Rhaglen yn un wladol a derbynnir ceisiadau gan elusennau dros y DU i gyd. Mae'r grantiau gan amlaf yn unigol ar gyfer prosiectau cyfalaf, ond mae'r Sefydliad hefyd yn ystyried ariannu refeniw ar gyfer prosiect newydd neu os yw ariannu yn allweddol i lwyddiant parhaus neu oroesiad prosiect a sefydlwyd yn barod.

Cyswllt: Peter Harrison Foundation,
Foundation House, 42 - 48 London Road, Reigate, Surrey RH2 9QQ
Ffôn: 01737 228000
Ffacs: 01737 228001
enquiries@peterharrisonfoundation.org
www.peterharrisonfoundation.org

Cynllun grantiau 'The Millennium Stadium Charitable Trust'

Mae arian ar gael i fudiadau gwirfoddol, ddim er elw ac elusennol. Mae'r cynllun grantiau yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: chwaraeon, yr amgylchfyd, y celfyddydau a'r gymuned. Er ystyrir pob mudiad ar ei deilyngdod, rhoddir blaenoriaeth i fudiadau sy'n darparu ar gyfer pobl dan anfantais oed, cenedl, anabledd, ethnigrwydd neu amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd. Uchafswm y grant: Mudiadau lleol - £2,000; mudiadau rhanbarthol - £10,000; mudiadau cenedlaethol - £20,000.

Cyswllt:
The Millennium Stadium Charitable Trust, The Coal Exchange,
Mount Stuart Square,
Caerdydd CF10 5ED
Ffôn: 029 2049 4963
Ffacs: 029 2049 4964
mcst@fusionuk.org.uk
www.millenniumstadium.com

Sport Relief

Dyma raglen Comic Relief a anelwyd at ddefnyddio chwaraeon fel ffordd i ddod â phobl ifainc at ei gilydd. Dosberthir y grant drwy'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Uchafswm y grant yw £5,000.

Cyswllt: Sport Relief,
5th Floor, 89 Albert Embankment, Llundain SE1 7TP
Ffôn: 020 7820 5555
Ffacs: 020 7820 5500
ukgrants@comicrelief.org.uk
www.sportrelief.com

Betfair Cash-4-Clubs

Dyma gynllun grantiau bach sy'n cael ei redeg gan Betfair, sef bwci ar-lein. Maent yn ariannu Offer ac addysg i hyfforddwyr, ymhlith phethau eraill. Mae uchafswm o £1,000 ar gael. Rhyw fath o Gist Gymunedol yw hwn.

Cyswllt
Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.cash-4-clubs.com/about-us/

Canoe Foundation

Mae '*Canoe Foundation'*, sef cangen elusennol Undeb Canŵio Prydain, yn gweithio i newid bywydau pobl drwy ganŵio. Mae'r Sefydliad yn gweithio i gael effaith gadarnhaol mewn pum maes allweddol: Pobl Ifanc, Cydraddoldeb, Cyfleusterau, gwaith Rhyngwladol a Threftadaeth. Caiff gwefan newydd ei lansio yn y misoedd nesaf, lle ceir llawer o wybodaeth a diweddariadau.

Cyswllt:
Ffôn: 0300 011 9502
mandy.delaney@bcu.org.uk

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Mae Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo yn elusen gofrestredig sy'n rhoi grantiau i gymunedau'r meysydd glo. Mae'n anodd cael gafael ar y brif raglen grantiau, gan ei fod yn bennaf yn casglu gwaith a adawyd gan y rhaglen Amcan 1. Y brif ffrwd o ddiddordeb ar gyfer chwaraeon yw rhaglen 'Pontio'r Bwlch'. Mae uchafswm o £10,000 ar gael i brosiectau grwpiau cymunedol a grwpiau gwirfoddol. Mae'n rhaid i'r prosiectau gael eu cwblhau o fewn 12 mis, a'r prif faen prawf yw "gweithgaredd sy'n cynnwys pobl mewn gweithgaredd corfforol neu'n mynd i'r afael â phroblem iechyd yn lleol." Ceir rhagor o fanylion a meysydd cymhwysedd yn:
www.coalfields-regen.org.uk/bridgingthegap/default.asp
www.coalfields-regen.org.uk/contactingus/wales/eligibility/default.asp

Cronfa Gymunedol Co-operative

Dyma raglen grantiau ar gyfer grwpiau cymunedol, grwpiau gwirfoddol a chlybiau, gyda dyfarniad o hyd at £5,000. Mae cymunedau cymwys yn cynnwys y rheini sydd â siop Co-op leol, parlwr angladdau neu fanc Co-op. Mae enghreifftiau o brosiectau a gefnogwyd yn cynnwys dillad pêlrwyd, dillad rygbi, offer chwarae, offer nofio, dillad pêl-droed a gwefan newydd ar gyfer clwb gymnasteg.

Cyswllt:
www.co-operative.coop/membership/Community-Fund/

Football Foundation

Nod y sefydliad yw sicrhau cenhedlaeth newydd o gyfleusterau modern mewn parciau, cynghreiriau newydd ac ysgolion, a rhoi cymorth cyfalaf/refeniw i gynyddu cyfranogiad mewn pêl-droed ar lawr gwlad, i gryfhau'r cysylltiadau rhwng pêl-droed a'r gymuned a manteisio ar y potensial fel grym daioni yn y gymuned. Mae gan y Sefydliad nifer o gynlluniau grantiau ar waith.
Cyswllt:
www.footballfoundation.org.uk/welcome

Ariannu Stadia Pêl-droed

Cymorth grant i glybiau yn y Gynghrair Bêl-droed, y Gyngres a system y Gynghrair Genedlaethol yng Nghymru a Lloegr i wella eu cyfleusterau ar gyfer chwaraewyr, swyddogion a gwylwyr. Mae costau'r prosiect a ystyrir yn cynnwys adnewyddu, gwaith diogelwch, llifoleuadau, draenio'r cae, toiledau a chyfleusterau ar gyfer cefnogwyr anabl. Gellir gwneud dyfarniad o hyd at £2 miliwn i glybiau yn y Gynghrair Bêl-droed. Ar gyfer clybiau mewn cynghreiriau is, mae uchafswm y grant yn llai.

Bydd angen isafswm o 10% o gyfanswm costau'r prosiect gael eu rhoi gan naill ffynonellau'r ymgeisydd ei hun neu ffynonellau eraill. Mae'n debygol y bydd y ganran hon yn uwch mewn rhai achosion. Mae'r cyllid i'w gael ar gyfer clybiau Pêl-droed yn y Gynghrair Bêl-droed, y Gyngres a system y Gynghrair Genedlaethol. Gellir gwneud ceisiadau ar unrhyw adeg.

Cyswllt:
facilities@footballfoundation.org.uk
www.footballfoundation.org.uk

Grantiau Pêl-droed ar gyfer Cyllido Cyfleusterau

Mae'r grant hwn gan Football Foundation ar gael yn bennaf i gefnogi mudiadau sy'n dymuno adeiladu, datblygu a/neu adnewyddu cyfleusterau er mwyn cadw a chynyddu cyfranogiad mewn pêl-droed.

Costau cyfalaf, e.e. gwella system ddraenio caeau porfa, ystafelloedd newid a phafiliynau ac adeiladau'r clybiau. Gall elfen o arian refeniw fod yn gymwys os yw'n gysylltiedig â chynnig cyfalaf nad yw'n fwy na 20% o'r grant y gofynnwyd amdano.

Ar unrhyw gais a wneir, yr isaf yw canran y cymorth gan y Sefydliad, y mwyaf tebygol ydyw o gael ei gymeradwyo. Mae'r lefel uchaf o gyllid yn aros ar 90% o gyfanswm costau cymwys y prosiect, hyd at £1 miliwn. Fodd bynnag, byddai dyfarnu grant o'r lefel hwn yn anghyffredin iawn.
Gofynnir i ymgeiswyr i ddarparu o leiaf 10-50% o gostau'r prosiect o'u ffynonellau eu hunain neu rai eraill.

Mae cyllid ar gael i awdurdodau lleol: sefydliadu addysg, clybiau pêl-droed, clybiau aml-gampau, elusennau cofrestredig, cwmnïau dielw cyfyngedig drwy warant, cymdeithasau diwydiannol a darbodus a mudiadau dielw.

Cyswllt:
www.footballfoundation.org.uk/apply/facilities-grants/

GwirVol

Partneriaeth yw GwirVol rhwng y trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, a gaiff ei arwain gan safbwyntiau pobl ifanc Cymru. Bwriad y Bartneriaeth yw darparu fframwaith i sicrhau newid yn niferoedd ac amrywiaeth gwirfoddolwyr ifanc a rhoi mwy o gyfleoedd gwirfoddoli iddynt sydd o safon well. Dyma raglen grantiau sy'n cynnig dyfarniadau hyd at £10,000 i fudiadau sy'n ystyried datblygu cyfleoedd gwirfoddoli newydd ar gyfer pobl ifanc.

Cyswllt:
www.gwirvol.org/cy/grantiau/

Heart Research UK

Mae'r rhaglen Grant Calon Iach yn cefnogi prosiectau arloesol sydd wedi'u cynllunio i hybu iechyd y galon, ac atal neu leihau'r perygl o glefyd y galon mewn grwpiau neu gymunedau penodol. Mae grantiau hyd at £10,000 ar gael i grwpiau cymunedol, mudiadau gwirfoddol ac ymchwilwyr sy'n lledaenu'r neges am galon iach. Dim ond yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror y caiff ceisiadau eu derbyn ar gyfer rownd grantiau mis Mai, a mis Gorffennaf a mis Awst ar gyfer rownd grantiau mis Tachwedd.

Cyswllt:
www.heartresearch.org.uk/healthy_heart_grants.htm

Cynllun Credyd Treth Tirlenwi

Mae hwn yn addas ar gyfer cymunedau'n byw o fewn radiws o 10km i safle tirlenwi gweithredol. Mae hyd at £50,000 ar gael , er mae hyn yn dibynnu ar y gweithredwr lleol (Biffa, WREN ac ati). Mae angen ail bartner ariannu ar y prosiect arfaethedig, a allai fod yn gyngor tref/cymuned, a fydd angen cyfrannu o leiaf 11% o gyfanswm y gost. Mae prosiectau blaenorol yn cynnwys meysydd chwarae a pharc sglefrio.

Cyswllt:
www.entrust.org.uk/home/lcf
www.entrust.org.uk/home/lcf/funders-directory

National Task Force

Menter Gymdeithasol ddielw yw *National Task Force*, sy'n creu, cefnogi ac ariannu amrywiaeth eang o brosiectau ledled Cymru. Gyda'r nod eithaf o adeiladu cymunedau diogelach drwy atal, maent wedi canfod pwy sydd fwyaf tebygol o droseddu a phwy sydd fwyaf tebygol o ddioddef trosedd. Yr ateb i'r ddau yw pobl ifanc 13-35 oed, yn ystod cyfnod a elwir yn aml yn 'Pontio i Oedolaeth'.

"Nid oes UN rhaglen neu ddull sy'n addas ar gyfer ymgysylltu â'r grŵp oedran hwn o bobl; wrth gwrs mae dylanwad rheini, amgylchiadau a phrofiadau pawb yn eu gwneud yn unigolion ac yn unigryw.
Er mwyn targedu'r grŵp oedran hwn mewn modd amrywiol; rydym yn canolbwyntio ar chwe phrif brosiect:"

• Bocsio amatur
• *Parkour*
• Dosbarthiadau Bocsymarfer
• Ysgol Roc
• Cyrsiau Entrepreneuriaeth
• Clwb Diniweidrwydd

I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.ntf.me/about/

Cronfa Budd Cymunedol Npower

Dyma gynllun grant ar gyfer cymunedau sy'n byw gerllaw datblygiadau tyrbinau gwynt. Caiff y mecanwaith ariannu ei sefydlu yn lleol i ddosbarthu potiau penodol o arian er budd prosiectau cymunedau lleol. Er enghraifft, yng Ngharno, Powys, dosbarthwyd £31,523 yn 2008 (gweler y ddolen isod). Ar gyfer ardaloedd eraill gweler y ddolen isod, cliciwch ar *portfolio/projects* yn *operation/wind* neu hydro/lleoliad ar y map ac yna cliciwch ar ddolen y gymuned leol ar y chwith. Mae hefyd yn werth edrych ar y prosiectau sy'n cael eu datblygu ar gyfer safleoedd yn y dyfodol. Ceir manylion cronfa Carno, yn ogystal â dolennu at brosiectau eraill yn:
www.npower-renewables.com/carno/benefits.asp

People's Postcode Trust

Dyma ffrwd newydd o arian i Gymru, gyda grantiau hyd at £5k ar gael ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen yn cwmpasu nifer o feysydd, sy'n cynnwys chwaraeon i'r cyhoedd. Ceir rhagor o wybodaeth a chyfle i ymgeisio yn:
www.postcodetrust.org.uk/

The Rowing Foundation

Nod *The Rowing Foundation* yw rhoi cymorth a chefnogaeth i bobl ifanc (y rheini o dan 18 neu sydd mewn addysg llawn amser o hyd) a phobl anabl o bobl oed drwy eu cyfranogiad mewn chwaraeon a gemau, yn arbennig chwaraeon dŵr ym Mhrydain.

Mae'r sefydliad yn awyddus i helpu mudiadau a chlybiau y mae eu gofynion yn rhy fach neu efallai na fyddai'n gymwys fel arall i wneud cais i'r Loteri Genedlaethol neu ffynonellau tebyg o gyllid.

Mrs M. P. Churcher
Hon. Secretary, The Rowing Foundation, 2 Roehampton Close,
Putney, London, SW15 5LU

Ffôn: 0208 878 3723
Ffacs: 0208 878 6298

p.churcher@sky.com

Sblash - Asiantaeth yr Amgylchedd

Sblash yw'r gronfa her hamdden dŵr i Gymru, ei brif nod yw darparu mynediad newydd neu well at ddŵr. Mae grantiau hyd at 100% ar gael i gyrff preifat a chyhoeddus, ac ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw. Mae prosiectau sydd eisoes yn cael cefnogaeth yn cynnwys adeilad clwb newydd, prynu cychod, pegiau pysgota ar gyfer pysgotwyr anabl a phrynu offer syrffio. Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/recreation/100081.aspx

Dyfarniadau Cymunedol Ymddiriedolaeth Elusennol Tesco

Mae grantiau hyd at £25,000 ar gael i gymunedau sy'n byw gerllaw siop Tesco, er mae'r rhaglen grantiau bach sydd â dyfarniadau o hyd at £4,000 yn haws i gael gafael arni. Mae'r maes cymhwysedd o ddiddordeb yn cynnwys offer i roi budd uniongyrchol i blant, yr henoed a phobl anabl. Mae prosiectau a gefnogwyd yn flaenorol yn cynnwys offer cae chwarae ac offer arbenigol ar gyfer plant anabl. Ceir rhagor o fanylion yn:
www.tescoplc.com/plc/corporate_responsibility_09/community/making_difference/charitablegiving/tesco_charity_trust/

Wells Sports Foundation

Mae'r cynllun grantiau chwaraeon wedi'i sefydlu i greu etifeddiaeth barhaus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy ddatblygu chwaraeon mewn clybiau. Mae grantiau rhwng £500 a £2,000 ar gael i brosiectau sy'n cefnogi datblygiad a chynaliadwyedd clybiau chwaraeon, er enghraifft i brynu offer neu ddysgu i hyfforddi. Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.wellssportsfoundation.org/grassroots-sport/sport-grants.aspx

Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru

Dyma raglen grantiau sy'n cael ei rhedeg gan *Welsh Grounds Imporvement*, ac yn fenter ar y cyd rhwng Ymddiriedolaeth Pêl-droed Cymru a Chymdeithas Pêl-droed Cymru. Mae cyllid ar gael ar gyfer gwelliannau wrth ochr y caeau megis eisteddle newydd, draenio'r cae, cloddio a seddau'r gwylwyr, ymhlith eraill. Mae ar gael i glybiau sy'n chwarae yn y canlynol - Uwch gynghrair Cymru, Cymru Alliance League, Cynghrair Cymru (Adran 1 a 2), Cynghrair Spar Canolbarth Cymru, Welsh Alliance League a Chynghrair Cenedlaethol Cymru (Wrecsam). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:
www.welshfootballtrust.org.uk/welsh-grounds-improvements

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Trydydd Sector Caerdydd
Llawr Gwaelod, Tŷ Brunel, 2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd, CF24 0EB
Elusen Gofrestredig *1068623*

Ffôn: 029 2048 5722 enquiries@c3sc.org.uk
Ffacs: 029 2046 4196 www.c3sc.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:28/07/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk